



## Amcan Llesiant 9

Byw'n Dda/Heneiddio'n Dda - Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel

### Sut y byddwn yn gwneud hyn?

### Ein cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur)

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Erbyn Pryd
<b>A</b>	<b>Byddwn yn gweithredu Strategaeth Cymorth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin</b>	
1	Gweler Amcan Llesiant 1 - <i>Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd</i> - i gael ystod lawn o Gamau Gweithredu ar gyfer Cefnogi Teuluoedd.	
<b>B</b>	<b>Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu sut ydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol</b>	
1	Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu sut ydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth, gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael ac yn hawdd ei chyrru, a chan gysylltu â system Dewis	Mawrth 2018
2	Adolygu ein gwasanaeth anableded er mwyn sicrhau llwybrau a phontio di-dor o blant i oedolion	Mawrth 2018
<b>C</b>	<b>Cydlyniant Cymunedol</b>	
1	Byddwn yn gweithredu'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol newydd ar gyfer Cydlyniant Cymunedol am 2017/18. <i>Mae Cydlyniant Cymunedol yn cynnwys grŵp bondiau cymdeithasol lle mae ffrindiau a theulu yn helpu ei gilydd a Phontydd cymdeithasol - lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn helpu ei gilydd.</i> <i>Pedwar egwyddor y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol yw:-</i> 1. <i>Mynd i'r afael â rhagfarn, gelyniaeth a gwahaniaethu a wynebir gan bobl â Nodweddion Gwarchoddedig</i> 2. <i>Chwalu'r rhwystrau i gynhwysiant ac integreiddio ar draws y Nodweddion Gwarchoddedig.</i> 3. <i>Deall a mynd i'r afael ag ofnau a fynegwyd gan gymunedau ynghylch mewnfudo.</i> 4. <i>Hyrwyddo cyfleoedd i atal rhai grwpiau ethnig rhag cael eu hymyleiddio</i>	Gorffennaf 2017
<b>D</b>	<b>Byddwn yn clustnodi'r cryfderau a'r adnoddau mewn cymunedau sy'n gallu cyfrannu at hyrwyddo a chefnogi iechyd a llesiant cymdogion</b>	
1	Byddwn yn clustnodi'r cryfderau a'r adnoddau mewn cymunedau sy'n gallu cyfrannu at hyrwyddo a chefnogi iechyd a llesiant. ( <i>Hefyd yn Amcanion Llesiant 10 ac 11</i> )	Mawrth 2018
2	Moderneiddio'r gweithlu i gefnogi'r gwaith o weithredu deddfwriaeth newydd yn ogystal ag amcanion strategol yr Adran Cymunedau (CSC) a Chynllun Tymor Canolig Integredig Hywel Dda. ( <i>Hefyd yn Amcan Llesiant 10</i> )	Ebrill 2018
3	Datblygu ymhellach adnoddau gwe Synnwyr Arian er mwyn gwella incwm, datblygu cynnyrch a'i farchnata. ❖ Gwella hyder trigolion yn Sir Gaerfyrddin i ddelio â materion ariannol personol, a thrwy hynny gynyddu hunan-barch a lles cyffredinol. ❖ Gwella gallu ariannol trigolion yn Sir Gaerfyrddin, a thrwy hynny leihau pa mor agored yw defnyddwyr i dwyll ariannol ac annog twf busnesau cyfreithlon. ❖ Bydd yr ymchwil yn cynnig tystiolaeth ar effeithiolrwydd Synnwyr Arian, a fydd yn gwneud yr adnoddau'n fwy gwerthadwy i awdurdodau lleol eraill er mwyn cynhyrchu incwm.	Mawrth 2018

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Erbyn Pryd
4	Byddwn yn defnyddio elw troseddau ar draws y gwasanaethau rheoleiddio i amddiffyn pobl	Mawrth 2018
5	Byddwn yn datblygu amrywiaeth o opsiynau a fydd yn gwobrwyo tenantiaid am ofalu am eu cartref.	Mehefin 2018
<b>E Cefnogi Cymunedau Mwy Diogel</b>		
1	Byddwn yn cynnal ac yn ymdrechu i leihau ymhellach y lefelau trosedd isel, sydd eisoes ymhlith yr isaf yng Nghymru a Lloegr (5.1.1.2) Cam gweithredu a Mesur (2016/17 - Ffigurau 8,624)	Mawrth 2018
2	Byddwn yn sicrhau bod cymunedau lleol yn fwy hyderus ein bod yn mynd i'r afael â'r materion sydd bwysicaf iddynt ac yn cael effaith ar lefelau troseddu.	Mawrth 2018
3	Byddwn yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â phroblemau lleol (5.1.1.3) Cam gweithredu a Mesur (Ffigurau 2016/17 - 6,780)	Mawrth 2018
4	Byddwn yn lleihau nifer yr achosion o drais cysylltiedig ag alcohol	Mawrth 2018
5	Byddwn yn lleihau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.	Mawrth 2018
6	Byddwn yn ymateb i Adroddiad Diogelwch Cymunedol yng Nghymru Swyddfa Archwilio Cymru, a'i argymhellion i Lywodraeth Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ac Awdurdodau Lleol	Mawrth 2018
7	Byddwn yn sefydlu ac yn hyrwyddo ymagwedd "busnes pawb" at ddiogelu yn Sir Gaerfyrddin drwy weithio gyda chydweithwyr awdurdod lleol ac asiantaethau partner	Rhagfyr 2017
8	Adolygu contractau trydydd sector i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a thrawsnewid gwasanaethau ym maes iechyd meddwl ac anabledd dysgu.	Gorffennaf 2017
9	Byddwn yn cynyddu nifer y bobl agored i niwed a difreintiedig sy'n cael eu diogelu drwy'r Cynllun Diogelu rhag Cam-fanteisio Ariannol (Hefyd yn Amcanion Llesiant 11 a 5)	Mawrth 2018
10	Byddwn yn sicrhau bod nifer y dyddiau calendr, ar gyfartaledd, a gymerir i atgyweirio pob golau stryd diffygiol yn parhau i fod yn llai na 4 diwrnod (THS/009) (Canlyniad 2016/17 – 4.26 diwrnod)	4 diwrnod